



PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Swyddog Datblygu:

**Y Ddeddf Plant – Prosiect y
Strategaeth Plant a Phobl
Ifanc (PPhI)**

Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

Cyflwyniad

Teitl y Swydd: Swyddog Datblygu (Y Ddeddf Plant – Prosiect y Strategaeth PPHI)

Yn Adrodd i'r: Cyfarwyddwr

Lleoliad: Caerdydd

Oriau Gwaith: 21 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n eglur gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Pwrpas y fanyleb person yw nodi, mor fanwl â phosibl, yr isafswm o ran sgiliau, profiad a gwybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr i gyflawni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais am y swydd.** Bydd methu â gwneud hynny yn lleihau'n sylweddol eich cyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweiliad.

Bydd y broses ymgeisio yn cau ar **23 Tachwedd 2021**.

Gyda'n gilydd rydym ni'n adeiladu diwylliant cynhwysol a chroesawgar, lle gall pawb ffynnu yn y gwaith. Rydym ni'n croesawu'n arbennig geisiadau gan ymgeiswyr sy'n Anabl, yn Ddu, yn Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig (BAME) ac yn LHTDC+.

Bydd ein panel recriwtio yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld. Ni fyddant yn derbyn eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio'n gyfrinachol.

Bydd gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y swydd hon yn cwblhau gwiriad Manwl gan y DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd), a chedwir yr holl wybodaeth a ddarperir yn ystod y broses ymgeisio fel rhan o'ch ffeil cyflogai.

I arbed costau, ni allwn gydnabod eich cais ond trwy e-bost.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweiliad, cewch eich hysbysu trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni erbyn **30 Tachwedd 2021**. Y bwriad yw cynnal cyfweiliadau ar **7 Rhagfyr 2021**, a byddant yn cynnwys cyflwyniad 15 munud, gyda chwestiynau cyfweiliad i ddilyn.

Gwybodaeth Bellach

- Contract:** Cyfnod penodol tan Awst 2022 (gyda'r posibilrwydd o estyniad)
- Oriau Gwaith:** Swydd ran amser, 21 awr yr wythnos, yw hon
- Graddfa Gyflog:** £32,878 y flwyddyn (pro rata)
- Gwyliau Blynnyddol:** 25 diwrnod y flwyddyn (pro rata)
- Dull Talu:** Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod staff ar y 15fed o bob mis
- Pensiwn:** Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan.
- Lleoliad gwaith:** Plant yng Nghymru, 21 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BY

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd:	Swyddog Datblygu (Y Ddeddf Plant – Prosiect y Strategaeth PPHI)
Yn Adrodd i'r:	Cyfarwyddwr
Lleoliad:	Caerdydd
Oriau Gwaith:	21 awr yr wythnos

Prif ddiben y rôl:

Diben y swydd yw cyfrannu at weithredu Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 trwy ddylunio a chyflawni strategaeth plant a phobl ifanc. Mae'r Ddeddf hon i ddod i rym ar 21 Mawrth 2022. Nod cyffredinol y Ddeddf yw helpu i ddiogelu hawliau plant trwy wahardd cosb gorfforol gan rieni a chan y rhai sy'n gweithredu in loco parentis yng Nghymru, gan gynnwys ymwelwyr â Chymru.

Bydd y rhaglen waith yn canolbwyntio ar dri amcan canolog

- Datblygu cynllun ymgysylltu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys pobl ifanc
- Datblygu adnoddau perthnasol i ysgolion a sefydliadau eraill ar y newidiadau i'r gyfraith, wedi'u gwreiddio yng nghyd-destun hawliau plant a datblygiadau deddfwriaethol ategol.
- Datblygu cynllun cynyddu ymwybyddiaeth i helpu i hyrwyddo'r adnoddau a rhaedru gwybodaeth am y newidiadau deddfwriaethol.

Bydd deilydd y swydd yn ymgysylltu'n weithredol ag ystod o weithwyr proffesiynol a phobl ifanc yng Nghymru i lywio cynnwys y strategaeth a datblygiad adnoddau i'w cynorthwyo i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ynghylch y newidiadau.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

A. Ymgysylltiad

- Cynnal ymarferiad mapio o'r sefydliadau yng Nghymru a fyddai'n elwa o dderbyn gwybodaeth am y newidiadau i'r gyfraith i lywio eu gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Byddai'r gweithgaredd hwn yn cynnwys rychwantu sefydliadau perthnasol yng Nghymru, fel rhan o gynllun ymgysylltu, a datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol ar y cyd.
- Sicrhau mewnbwn ystyrion gan blant a phobl ifanc ar bob agwedd ar y cynllun ymgysylltu a'r strategaeth plant a phobl ifanc, yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

B. Adnoddau

- Datblygu cyfres o adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys ysgolion, i'w cynorthwyo i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ynghylch y newidiadau i'r gyfraith oddi mewn i fframwaith hawliau plant. Byddai'r tasgau hyn yn cael eu llywio gan anghenion sefydliadau, a barn plant a phobl ifanc, a byddant yn ategu'r gweithgareddau hyrwyddo cyfredol sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r newidiadau deddfwriaethol.

C. Cynyddu Ymwybyddiaeth

- Datblygu a chyflwyno cynllun cynyddu ymwybyddiaeth sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo'r adnoddau, a rhaedru gwybodaeth am y newidiadau deddfwriaethol. Bydd yr adnoddau'n cael eu hyrwyddo ymhlith plant, ysgolion a sefydliadau eraill perthnasol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn unol â'r cynllun ymgysylltu.

D. Cyffredinol

- Dadansoddi a deall yn llawn bwrpas a bwriad Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.
- Sefydlu trefniadau monitro cadarn a chyfrannu at ofynion gwerthuso perfformiad ac adrodd y prosiect.
- Gweithio ar y cyd â staff Plant yng Nghymru i gefnogi rhai o'r elfennau cyflawnadwy ar gyfer y prosiect hwn, a chyfrannu at y rhaglen polisi ac ymarfer, yn arbennig yng nghyswllt materion yn ymwneud â hawliau plant.
- Ymgymryd â thasgau gweinyddol priodol i gefnogi'r prosiect.
- Cynhyrchu briffiadau, adroddiadau ac erthyglau sy'n hyrwyddo gwaith y prosiect ac arferion addawol ymhlith yr holl randdeiliaid perthnasol.
- Cynrychioli'r sefydliad mewn amrywiaeth o gyfarfodydd a digwyddiadau yn ôl y galw.
- Cyflawni'r uchod i gyd yn unol â nodau, gwerthoedd ac amcanion strategol Plant yng Nghymru, gan roi sylw arbennig i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Pholisïau Amddiffyn Plant.
- Cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r sefydliad, ac ymgymryd ag unrhyw dasgau eraill ar gais y rheolwr perthnasol a Plant yng Nghymru.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol gan y gall fod dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae Plant yng Nghymru yn gofyn bod deilydd y swydd yn eu cyflawni o bryd i'w gilydd, wrth gyfrannu at gyflawni ei weithgareddau.

Manyleb Person

Cyffredinol

Mae'r swydd hon yn gyfle cyffrous i gyfrannu at wella ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol o'r newidiadau deddfwriaethol sy'n cael eu cyflwyno gan Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Bydd gennych chi'r angerdd a'r ysgogiad angenrheidiol, a byddwch yn gwbl ymroddedig i hybu hawliau plant fel sylfaen i'ch gwaith, gydag ymrwymiad cadarn i egwyddorion a bwriad y deddfwriaeth newydd.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y sefydliad, ac yn datblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ein cyllidwyr. Bydd angen bod deilydd y swydd yn cyfathrebu, yn creu ac yn ysgrifennu'n effeithiol, ac yn gallu gweithio'n hyblyg gan gyflawni'r elfennau allweddol oddi mewn i derfynau amser y prosiect.

Gofynion Allweddol - Hanfodol

1. Wedi addysgu at lefel gradd mewn pwnc perthnasol.
2. O leiaf 2 flynedd o brofiad o waith gweithredol uniongyrchol yn y sector statudol, addysg, gwirfoddol neu sector cysylltiedig.
3. Gallu i gynhyrchu adnoddau a chynnwys clir, cryno a deniadol at ddibenion deunyddiau dysgu proffesiynol, hyfforddiant a chyflwyniadau, a phrofiad o wneud hynny.
4. Gallu i gyfleu gwybodaeth fanwl a chymhleth yn effeithiol i ystod eang o bobl.
5. Profiad o ddatblygu ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a gallu profedig i wneud hynny.
6. Profiad o waith amlddisgyblaeth, yn cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, a gallu i frocera a chynnal partneriaethau a pherthnasoedd newydd.
7. Arddangos gwybodaeth am deddfwriaeth, polisi, ymchwil ac ymarfer perthnasol yng Nghymru a dealltwriaeth ohonynt.
8. Gallu i arddangos gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ac ymrwymiad i'w gwerthoedd a'u hegwyddorion, ynghyd â phenderfyniad i hyrwyddo gweithrediad effeithiol.
9. Gallu i weithio'n greadigol ar eich menter eich hun oddi mewn i ganllawiau cytunedig, ynghyd â sgiliau trefnu da, gallu i gadw at derfynau amser, cynllunio a blaenoriaethu gwaith, a sgiliau TG da.
10. Sgiliau rhyngpersonol a llafar rhagorol.
11. Sgiliau TG a chyfathrebu ysgrifenedig rhagorol.
12. Gallu profedig i weithio fel rhan o dîm bychan, ynghyd â sgiliau meithrin tîm cryf.

Gofynion Allweddol – Dymunol

1. Gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg.
2. Gwybodaeth am gyfryngau digidol, offer dylunio a phecynnau meddalwedd a phrofiad ymarferol ohonynt.
3. Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc a gafwyd mewn lleoliad penodol megis ysgol, y sector gwirfoddol, llywodraeth leol neu waith cymdeithasol.
4. Dealltwriaeth ragorol o wleidyddiaeth Cymru, a materion polisi'r Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Gymru.
5. Hyfedredd wrth ddatblygu a chynnal cronfeydd data.
6. Profiad o lwyddo i sicrhau cyllid gan ymddiriedolaethau, sefydliadau neu roddwyr sefydliadol eraill.

Gwybodaeth Gefndir

Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Sefydlwyd y corff ym mis Chwefror 1992 yn elusen gofrestredig. Rydyn ni'n gorff o aelodau, ac mae'r aelodau hynny'n dod o'r trydydd sector, y sector statudol a'r sector annibynnol.

Gyda'n gilydd rydyn ni'n:

- Cyfrannu at wireddu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru
- Brwydro dros wasanaethau cynaliadwy o safon a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau llais i blant a phobl ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn cynnal nifer o weithgareddau i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel sefydliad o aelodau rydyn ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall aelodau fod yn rhai corfforaethol neu'n unigolion, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, cyrff gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol neu grwpiau hunangymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, eraill sy'n rhoi grantiau, ac incwm rydyn ni'n ei gynhyrchu ein hunain.

Mae Bwrdd o Ymddiriedolwyr yn llywodraethu gwaith y sefydliad

<http://www.childreninwales.org.uk/>